



Cyfarfod

PWYLLGOR IAITH

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 24AIN EBRILL, 2018

Lleoliad

Siambwr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH

Pwynt Cyswllt

Sioned Williams

01286 679729

sionedwilliams3@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Mawrth, 17 Ebrill 2018)

PWYLLGOR IAITH

AELODAETH (15)

Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Elwyn Edwards
Aled Ll. Evans
Elin Walker Jones
Elfed Williams

Alan Jones Evans
Judith Mary Humphreys
Olaf Cai Larsen
Charles Wyn Jones

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones
Kevin Morris Jones
Eirwyn Williams

Eric M. Jones
John Pughe Roberts

Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd

Alwyn Gruffydd

Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd

Sedd Wag - Annibynnol Unedig Gwynedd

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2018, fel rhai cywir.

5. YMGYNGHORIAD STRATEGAETH IAITH

7 - 37

6. ADRODDIAD AR BOLISI ENWAU LLEFYDD Y CYNGOR

38 - 49

7. CYFLWYNIAD TAN20 - ADRAN GYNLLUNIO

8. CWYNIION AC YMCHWILIADAU

PWYLLGOR IAITH, 27.02.18

Yn bresennol: Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Cai Larsen (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Judith Humphreys, Charles W. Jones, Kevin Morris Jones, a Eirwyn Williams.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd Mair Rowlands (Aelod Cabinet – Y Gymraeg) a Dylan Bryn Roberts (Rheolwr Canolfan Popdy, Hunaniaith).

Cefnogaeth Gorfforaethol: Janet Roberts (Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol), Gwenllian Williams (Rheolwr Gwasanaethau Iaith Gymraeg), a Sioned Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Adran Addysg: Debbie Anne Jones (Swyddog Addysg Ardal) a Carys Lake (Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd)

1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Eric Jones.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYD

Ni dderbyniwyd materion bryd.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Hydref, 2017 fel rhai cywir.

5. ADRODDIAD YR AELOD CABINET – Y GYMRAEG

Cyflwynwyd adroddiad llafar Aelod Cabinet y Gymraeg, yn manylu ar ddatblygiadau diweddar o fewn y maes, gan gynnwys y canlynol:-

- Penodiad Eluned Morgan fel y Gweinidog newydd gyda chyfrifoldeb am y Gymraeg – mae bwriad i'w gwahodd yn swyddogol i Wynedd i ddangos y gwaith sydd yn mynd ymlaen yma.
- Dim wedi derbyn diweddariad o beth fydd yn digwydd ynglŷn â Bil y Gymraeg.
- Y gwaith ymgynghori ar Gynllun y Cyngor, fydd yn mynd ger bron y Cyngor Llawn ar y 1 Mawrth 2017, ynghyd â'r Cynllun Llesiant lle mae'r Gymraeg wedi ei gynnwys fel un o'r blaenoriaethau.
- Diolchwyd i'r Rheolwr Gwasanaethau'r Iaith Gymraeg ar ei gwaith o lunio'r Strategaeth Iaith a fydd yn mynd allan am ymgynghoriad ym mis Mawrth.
- Wedi cyfarfod gyda Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Uned Gymraeg yn y Llywodraeth, a bydd cyfarfodydd rheolaidd yn ei gynnal i drafod materion sy'n digwydd yn genedlaethol ac yn lleol e.e. Datblygiadau Technoleg Iaith.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.

6. STRATEGAETH IAITH GWYNEDD

Cyflwynwyd diweddariad ar lafar gan y Rheolwr Gwasanaethau Iaith Gymraeg yn diweddar i'r pwyllgor ar gynnwys Strategaeth Iaith Gwynedd. Eglurwyd fod yr amserlen wreiddiol i ymgynghori ar y strategaeth wedi llithro er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau sydd wedi eu nodi yn y strategaeth yn adlewyrchu blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a'r Cynllun Llesiant. Nodwyd bod y Strategaeth Iaith ddrafft bellach wedi ei gwblhau a bydd yn mynd gerbron y Cabinet ar y 13 Mawrth 2018 i ofyn am gymeradwyaeth i ddechrau'r cyfnod ymgynghori. Mae bwriad i gyflwyno'r strategaeth i'r Pwyllgor Iaith ym mis Ebrill er mwyn ymgynghori gyda'r pwyllgor yn ffurfiol.

Tywyswyd yr aelodau'r drwy gynnwys y Strategaeth Iaith ddrafft. Yn ystod y drafodaeth ddilynol, ymatebwyd i gyfres o gwestiynau/sylwadau gan aelodau unigol mewn perthynas â:-

- Croesawu cynnwys yr adroddiad a mynegwyd gwerthfawrogiad i'r adran am eu gwaith.
- Pwysigrwyd cyfoethogi cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith fel iaith naturiol, cymunedol sydd yn cael ei defnyddio pob dydd; er na fydd hyn yn cynyddu'r nifer sy'n siarad y Gymraeg, bydd hyn cryfhau'r iaith ac yn ei sicrhau ar gyfer y dyfodol.
- Beth yw gwerth strategaeth yn erbyn gwerth polisi?
- Trefniadau monitro cynnydd y blaenoriaethau – pwysig bod y Pwyllgor Iaith efo rhan allweddol yn y broses yma.
- Angen adnabod manylder meysydd gwaith ein partneriaid i sicrhau bod gwaith ddim yn cael ei ddyblygu.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys y strategaeth.

7. STRATEGAETH IAITH UWCHRADD

Cyflwynwyd y Strategaeth Iaith Uwchradd gan y Swyddog Addysg Ardal Ysgolion a Chydlynnydd y Strategaeth Iaith Uwchradd. Nodwyd fod y strategaeth yn ymateb i'r galw i sicrhau dilyniant i'r Siarter Iaith sydd eisoes wedi bod yn weithredol yn yr ysgolion cynradd. Adroddwyd bod y strategaeth, fel dogfen ddrafft, wedi bod gerbron y Grŵp Cynllunio Strategaeth Uwchradd, y Pwyllgor Iaith, a'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi am ymgynghoriad, ac wedi ei fabwysiadu gan y Cabinet ar y 26 Hydref 2017.

Tywyswyd yr aelodau drwy'r strategaeth. Yn ystod y drafodaeth ddilynol, ymatebwyd i gyfres o gwestiynau/sylwadau gan aelodau unigol mewn perthynas â:-

- A oes modd monitro'r nifer o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg mewn ysgolion megis Tywyn.
- Yr angen i fynd i'r afael â'r dirywiad parhaol yng nghanlyniadau disgyblion sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3. A oes modd ymgorffori'r anghenion yma yn narpariaeth GwE?
- Ymateb i'r strategaeth gan bennaeth newydd CBAC.
- Yr angen i godi niferoedd yr athrawon sy'n dysgu yn y Gymraeg iaith gyntaf i osod y deunydd craidd i ddysgu pob pwnc yn y Gymraeg.
- Sicrhau bod gwirfoddolwyr/hyfforddwyr sy'n dysgu plant ar ôl ysgol yn defnyddio'r Gymraeg.
- Angen i'r strategaeth ymledu i bob cwr o'r Cyngor.
- Pwysig bod y Colegau hefyd yn cael eu cynnwys yn y strategaeth.

PENDERFYNWYD derbyn y cynnwys yr adroddiad a'r camau nesaf.

8. CYFLWYNIAD I WAITH HUNANIAITH

Rhodddwyd cyflwyniad i'r Pwyllgor gan Reolwr Canolfan Popdy ym Mangor ar waith Hunaniaith sef Menter Iaith Gwynedd. Yn ystod y drafodaeth ddilynol, ymatebwyd i gyfres o gwestiynau/sylwadau gan aelodau unigol mewn perthynas â:-

- A yw gwaith Hunaniaith yn dyblygu gwaith y llyfrgelloedd?
- Pwysigrwydd derbyn yr iaith sut bynnag y mae hi'n cael ei siarad.
- Yr angen i annog mwy o weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg i bobl ifanc.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys y cyflwyniad.

9. CWYNION

Nid oedd unrhyw gwynion yw nodi.

10. MATERION ERAILL YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

DRAFT

Eitem 5

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	27 Chwefror 2018
TEITL:	Ymgynghoriad Strategaeth Iaith Gwynedd
AWDUR:	Gwenllian Mair Williams Swyddog Datblygu iaith y Gweithle
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwyno fersiwn ymgynghori Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023 i'r Aelodau

1. Cefndir

- 1.1 Yn unol â gofyn Safon 145 (Safonau'r Gymraeg, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), mae dyletswydd statudol arnom i ni lunio strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydym yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn ein hardal.
- 1.2 Bydd y Strategaeth newydd yn cael ei gyrru gan y Cyngor, a bydd gofyn i holl adrannau'r Cyngor, yn ogystal â phartneriaid allanol gyfrannu tuag at weithredu ei hamcanion. Bydd hefyd yn adlewyrchu'r ymrwymïadau a wneir yng nghyswllt yr iaith yng Nghynllun y Cyngor, Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn a chynlluniau strategol eraill.
- 1.3 Mae strategaeth ddrafft wedi ei llunio ar sail ymgynghori gydag aelodau a dadansoddiad o strategaethau a chynlluniau perthnasol yn y maes.
- 1.4 Bydd Proses Ymgynghori yn cael ei chynnal dros y 6 wythnos nesaf fydd yn cynnwys ymgynghori gyda Penaethiaid gwasanaethau'r Cyngor, a phartneriaid allanol, gan gynnwys cyrff cyhoeddus a chynrychiolwyr cymunedol.

2. Camau nesaf

Bydd y Strategaeth derfynol, ynghyd â Chynllun Gweithredu, fydd yn manylu ar ymrwymïadau gan adrannau mewnol a phartneriaid allanol i wireddu'r amcanion, yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan Gabinet y Cyngor ac yna i'r Cyngor Llawn yn yr Hydref.

3. Yr hyn a geisir gan y Pwyllgor?

- 3.1 Gofynnir i'r aelodau ystyried y Cynllun Hybu, a chynnig sylwadau ar ei gynnwys.
- 3.2 Mae holiadur wedi ei gynnwys gyda'r Cynllun sydd yn cynnwys y cwestiynau ymgynghori, fel modd o hwyluso'r drafodaeth.

3.3 Mae croeso i unrhyw aelod gynnig sylwadau yn unigol hefyd, drwy lenwi'r holiadur a'i anfon at y Swyddog Datblygu ar y cyfeiriad canlynol: cydraddoldebaciaith@gwynedd.llyw.cymru



Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023



Cynnwys

	Tudalen
1. Cyflwyniad	1
2. Crynodeb o'r sefyllfa bresennol a'r heriau	2
3. Beth hoffem ni ei weld?	4
3.1 Maes Blaenoriaeth 1: Iaith y cartref	5
3.2 Maes Blaenoriaeth 2: Iaith dysgu	8
3.3 Maes Blaenoriaeth 3: Iaith gwaith a gwasanaeth	11
3.4 Maes Blaenoriaeth 4: Iaith y gymuned	15
3.5 Maes Blaenoriaeth 5 : Ymchwil a thechnoleg – gosod y seiliau cywir	18
5. Gweithredu'r Strategaeth	20



1. Cyflwyniad

Mae Safonau'r Gymraeg, a osodwyd ar y Gyngor Gwynedd yn unol ag **Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** yn gosod disgwyliad ar y Cyngor i lunio strategaeth hybu 5 mlynedd fydd yn dangos sut yr ydym yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg ar draws y sir.

Mae gan Gyngor Gwynedd hanes hir o hybu a gwarchod yr iaith fel cyfrwng cyfathrebu naturiol ei wasanaethau. Rhoir lle amlwg i'r Gymraeg yng nghynlluniau strategol y Cyngor, ac mae Polisi Iaith y Cyngor hefyd yn nodi ein hymrwymiad drwy ddatgan y rhoir cyfrifoldeb ar **holl** Swyddogion ac Aelodau'r Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o'u gwaith.

Mae **Cynllun y Cyngor 2018-2023** yn nodi mai un o'i amcanion llesiant yw sicrhau bod holl drigolion Gwynedd yn cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar y gwaith a wnaed ar sail Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-18, oedd yn cael ei harwain gan Hunaniaith, y fenter iaith yng Ngwynedd, sydd yn gweithredu fel rhan o uned iaith y Cyngor. Mae'r strategaeth hon yn nodi'r cyfleoedd o ran hybu a chynyddu defnydd o'r Gymraeg fel rhan naturiol o fywyd dyddiol yn y sir. Bydd y Strategaeth hefyd yn cynnig syniadau ar gyfer cyfraniad Gwynedd tuag at **Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050**, sydd yn gosod y nôd o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

Gyda'r Cyngor yn arwain y strategaeth newydd yn hytrach na Hunaniaith, y fenter iaith yng Ngwynedd, bydd y Strategaeth hefyd yn adlewyrchu ymrwymadau ehangach y Cyngor yng nghyswllt y Gymraeg, mewn sawl maes megis addysg, cynllunio a gwasanaethau cymdeithasol a gofal,* ac yn ategu'r blaenoriaethau a nodir yng **Nghynllun y Cyngor a Chynllun Llesiant Gwynedd a Môn**.

Bydd gweithrediad a llwyddiant y Strategaeth yn ddibynnol ar gydweithio rhwng nifer o bartneriaid, yn gyrrff cyhoeddus ac yn grwpiau cymunedol, er mwyn mynd i'r afael â'r heriau a'r rhwystrau amrywiol sydd yn wynebu'r Gymraeg ar draws y sir.

*Fframwaith strategol olynol Mwy na Geiriau.... ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol

<http://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?lang=cy>

2. Crynodeb o'r sefyllfa bresennol a'r heriau

2.1 Ystadegau allweddol

Yn ôl cyfrifiad 2011, mae 65.4% o boblogaeth Gwynedd yn gallu siarad Cymraeg.

Gwelwyd cynnydd yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn rhai ardaloedd o Wynedd, gan gynnwys Waunfawr, Ogwen, Y Groeslon, Llanbedr, Corris/Mawddwy, a gwelwyd cynnydd yn ôl dros y trothwy 70% yn ward Clynnog.

Ond gwelwyd gostyngiad yn gyffredinol yn nifer y wardiau lle mae dros 70% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg, gyda 39 allan o 71 ward ar ôl yn ôl cyfrifiad 2011.

Gwelwyd y cwmp mwyaf yn y grŵp oedran 65+, a'r cynnydd mwyaf ymysg y trigolion 'fengaf un, yn y grwpiau oedran 3-4 oed (70.9% i 73.0%) a 5-15 oed (91.8% i 92.3%), sydd yn awgrymu bod y gwasanaethau blynyddoedd cynnar a'r system addysg yn gwneud gwaith da o osod sylfeini cadarn i'n plant a phobl ifanc yn eu gallu a'r defnydd o'r Gymraeg.

2.2 Crynodeb o'r heriau

Er mwyn i ni allu canfod cyfleoedd i gynyddu nifer siaradwyr Cymraeg ac i gynyddu defnydd ohoni, mae angen i ni hefyd allu cydnabod yr heriau a'r rhwystrau sydd yn atal hynny. Mae angen i ni allu adnabod yr ardaloedd o'r sir, neu'r rhannau o fywyd, lle mae pobl yn defnyddio llai o'r iaith yn eu bywyd dyddiol, a deall pa ffactorau sydd yn gallu effeithio ar ddefnydd personol unigolyn o'r iaith.

Yn sicr ddigon, cael pobl i ddefnyddio'r sgiliau a'r gallu sydd ganddyn nhw i siarad Cymraeg, a hynny mewn cymaint â phosib o gyd-destunau, yw'r ffactor bwysig i ffyniant yr iaith yng Ngwynedd.

Er mwyn gallu annog hynny, mae angen ystyried effaith y ffactorau canlynol, a sut y gallwn fynd i'r afael â nhw er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i bobl ar draws y sir ddefnyddio ac arddel yr iaith o ddydd i ddydd:

- **Heriau daearyddol:**

Gwahaniaethau yn nifer a chanran y siaradwyr ar draws y sir yn golygu bod angen atebion ac ymyraethau gwahanol. Amrywiaeth hefyd yn y swyddi/gwasanaethau sydd ar gael mewn rhai ardaloedd gwledig sydd yn cael effaith ar gryfder yr iaith.

- **Newidiadau demograffig:**

Pobl ifanc yn symud allan o'r ardal i chwilio am waith a theuluoedd ddim yn symud i mewn oherwydd diffyg gwasanaethau yn gallu arwain at boblogaeth hŷn.

- **Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu:**

Teuluoedd ddim yn trosglwyddo'r iaith i'w plant gan arwain at golli'r Gymraeg fel iaith y cartref.

- **Colli nifer siaradwyr ar ôl 16 oed:**

Dim dilyniant cadarn o ddefnydd wrth adael addysg a phobl ifanc yn rhoi'r gorau i ddefnyddio'r iaith wrth fynd mewn i fyd gwaith a bywyd cymdeithasol fel oedolion.

- **Statws y Gymraeg fel iaith busnes:**

Y Gymraeg ddim yn cael defnydd digon amlwg gan fusnesau.

- **Hyder unigolion yn eu gallu a'u sgiliau:**

Diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn rheolaidd wrth gymdeithasu ac anawsterau wrth ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg yn gallu arwain at ddiffyg hyder ac at lai o ddefnydd.



3. Beth hoffem ni ei weld?

Dyma grynhoi ein gweledigaeth a'r newid yr hoffem ei weld yng Ngwynedd dros y blynyddoedd nesaf.

- Teuluoedd sydd yn gweld gwerth i'r iaith ac yn ei defnyddio fel iaith y cartref.
- Ysgolion sydd yn rhoi bob cefnogaeth ac anogaeth i ddatblygu siaradwyr Cymraeg rhugl.
- Plant a phobl ifanc sydd yn gweld gwerth i'r iaith fel sgil ar gyfer eu bywyd ac fel cyfrwng adloniant a chymdeithasu ac sydd yn ei defnyddio ym mhob rhan o'u bywyd.
- Sefydliadau a chyrrff sydd yn cynnig gwasanaethau Cymraeg yn gyson ac yn safonol.
- Sector busnes sydd yn rhoi gwerth a statws i'r iaith ac sy'n deall gwerth y Gymraeg fel sgil ac adnodd.
- Grwpiau cymunedol yn cael cefnogaeth i gynnal y Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu naturiol.
- Y Gymraeg yn cael blaenoriaeth amlwg mewn cynlluniau economaidd, tai a chynllunio yn lleol er mwyn sicrhau bod unrhyw gynlluniau a datblygiadau yn cyfrannu yn gadarnhaol at ymdrechion i ddiogelu a chryfhau sefyllfa'r iaith yn ein cymunedau.
- Trigolion sydd yn hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg ac yn dangos agwedd gadarnhaol ac ewyllys da tuag ati.

Yn rhan nesaf y ddogfen, byddwn yn trafod rhai o'r pwyntiau uchod dan bum maes thematig, sydd hefyd yn cyd-fynd gyda'r blaenoriaethau a osodir yn **Strategaeth Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050**.

Byddwn maes o law yn llunio cynllun gweithredu ar sail y blaenoriaethau hynny, fydd yn manylu ar sut y bydd y Cyngor cyfan, ynghyd â phartneriaid cymunedol a chyhoeddus eraill, yn mynd ati i hybu'r Gymraeg a chynyddu defnydd ohoni yn y sir.

3.1

Maes Blaenoriaeth 1: laith y cartref

Y weledigaeth...

- Dealltwriaeth ymysg rhieni o werth trosglwyddo'r Gymraeg i blant, ac o fanteision dwyieithrwydd ac amlieithrwydd.
- Cynnydd yn nifer y plant cyn oed ysgol sydd yn cael cyfleoedd chwarae cyfrwng Cymraeg.
- Cynnydd yn nifer y rhieni sydd yn dysgu rhywfaint o Gymraeg ac yn defnyddio'r sgiliau hynny gyda'u teuluoedd.
- Cynnydd yn nifer y plant sydd yn dod o aelwydydd lle mae mwy nag un iaith yn cael ei siarad yn gallu siarad Cymraeg.

Y darlun ystadegol...

Mae 90% o blant 3-4 oed Gwynedd sydd yn dod o gartrefi lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg yn gallu siarad Cymraeg.

Mae 63% o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg pan mai dim ond un riant sydd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd.

Yn fwy cadarnhaol fyth, mae 35% o blant sydd yn cael eu magu ar aelwydydd lle nad oes yr un o'r ddau riant yn siarad Cymraeg, yn cael eu nodi fel siaradwyr Cymraeg yng nghyfrifiad 2011.

Beth sydd angen digwydd nesaf?

Mae angen parhau i gydweithio gydag asiantaethau a phartneriaid ym maes blynyddoedd cynnar er mwyn sicrhau bod negeseuon cadarn a chyson yn cael eu rhannu gyda rhieni am werth yr iaith, nid yn unig i'r plant ond i'r teulu cyfan, ac annog mwy o rieni i ddysgu'r iaith ochr yn ochr â'u plant.

Rhaid sicrhau bod ymdrechion yn cael eu targedu yn briodol, a bod cyfleoedd chwarae, fydd yn annog rhieni a gofalwyr i ddefnyddio'r Gymraeg efo'u plant, yn cael eu cynnig yn gyson ar draws y sir. Bydd angen felly sicrhau bod adnoddau ac arbenigedd yn cael eu rhannu yn effeithiol rhwng y sefydliadau a darparwyr hyn er mwyn cael y dylanwad a'r cyrhaeddiad gorau posib.

Mae lluoedd o ddarparwyr unigol a grwpiau annibynnol yn bodoli yn y sir, er enghraifft, sydd yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau anffurfiol i rieni a phlant ifanc, megis sesiynau stori a chân a sesiynau nofio ac ymarfer corff. Mae nifer fawr o warchodwyr plant hefyd yn cynnig gofal cyfrwng Cymraeg ac sydd â dylanwad mawr ar gaffaeliad iaith plant ifanc.

Mae cyfle yma i fod yn dylanwadu ar y darparwyr hynny drwy gynnig sesiynau ymwybyddiaeth iaith a hyfforddiant wedi ei deilwra yn arbennig ar eu cyfer ar faterion megis sut i drosglwyddo negeseuon cadarnhaol am y Gymraeg i rieni. Mae Hunaniaith eisoes yn gwneud rhywfaint o waith fel hyn, ar y cyd efo Cymraeg i Blant, a hoffem weld hynny yn parhau ac yn ehangu dros y blynyddoedd nesaf.

3.2

Maes Blaenoriaeth 2: Iaith dysgu

Y weledigaeth...

- Ysgolion sydd yn rhoi bri a gwerth i'r Gymraeg drwy barhau i weithredu'r Siarter Iaith a Strategaeth Uwchradd yn yr ysgolion.
- Cynnydd yn nifer y bobl ifanc sydd yn dewis astudio ac yn derbyn cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd ac i addysg ôl-orfodol.

Y darlun ystadegol...

Yn ôl Cyfrifiad 2011 mae 1,997, sef 73% o blant 3-4 oed Gwynedd yn gallu siarad Cymraeg, a 13,038, sef 92% o'r plant 5-15 oed.

Yn ôl ystadegau'r Siarter Iaith, a gyhoeddwyd yn Asesiad Llesiant Gwynedd yn ddiweddar, dim ond 41.2% o ddisgyblion CA2 sydd yn defnyddi'r Gymraeg "bob amser" ar iard neu fuarth yr ysgol.

Mae canran y siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd yn gostwng yn sylweddol wrth symud o'r grŵp oedran 3-15 oed i 16-24 oed, o 89% i 58.6%.

Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050 yn nodi bod dros hanner dysgwyr Cymru yn gadael yr ysgol yn 16 oed, gan symud ymlaen i addysg bellach, seiliedig ar waith, neu gyflogaeth.

Beth sydd angen digwydd nesaf?

Mae sawl cynllun yn cael ei weithredu gan adran addysg y sir sydd yn mynd i'r afael â'r maes hwn, gyda Pholisi Iaith Adran Addysg Gwynedd a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn gosod sylfeini cadarn ar gyfer y gwaith hwnnw. Wrth ymestyn gweithrediad a dylanwad y cynlluniau hynny dros y blynyddoedd nesaf rydym yn gobeithio cael dylanwad cadarnhaol ar ddefnydd ac ar ddewisiadau ieithyddol pobl ifanc, fydd yn ei dro yn arwain at agwedd fwy cadarnhaol tuag at y Gymraeg wrth iddynt dyfu yn oedolion.

Y prif brosiect fydd **Strategaeth Iaith Uwchradd** y sir, sydd wedi ei datblygu i fod yn ddilyniant i waith y Siarter Iaith yn ysgolion cynradd y sir – cynllun a ddatblygwyd dan y Strategaeth Iaith sirol flaenorol. Nod y Strategaeth Uwchradd yw sicrhau bod y Gymraeg yn gyfrwng effeithiol ar gyfer bywyd a gwaith yr ysgol yn ei holl agweddau, gan ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddefnydd ieithyddol plant a phobl ifanc, mewn cyd-destun cwricwlaidd a chymdeithasol.

Bydd pob ysgol yn gweithredu'r **Strategaeth Iaith Uwchradd** ac yn gweithio i sicrhau fod holl randdeiliaid yr ysgol ynghlwm â'r cynllun.

Mae'r **Siarter Iaith** yn parhau i dyfu hefyd - a bellach yn cael ei gweithredu led-led Cymru dan arweiniad y Llywodraeth. Mae'r prosiect hwn yn golygu bod ysgolion cynradd yn gwneud gwaith da i ddylanwadu ar agweddau a defnydd iaith disgyblion y tu allan i'r ystafell ddosbarth, a bydd parhau i gynnig cefnogaeth ac arweiniad i staff a theulu yr ysgol i weithredu'r Siarter yn allweddol.

Addysg ôl-orfodol

Byddwn hefyd yn gweithredu i geisio lleihau nifer y siaradwyr Cymraeg sydd yn cael eu colli wrth iddynt adael yr ysgol a'i dylanwad.

Mae cyswllt amlwg yma gyda defnydd o'r iaith mewn gwaith, a'r angen i bobl ifanc weld ei gwerth fel sgil ac ased. Byddwn felly'n cydweithio gyda darparwyr addysg ôl-orfodol er mwyn cryfhau'r cyswllt rhwng cyrsiau galwedigaethol a'r cyfleoedd gwaith a chyflogwyr yn y sir sydd yn chwilio am weithwyr gyda sgiliau ieithyddol, a sicrhau bod y gallu a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y byd gwaith yn lleol yn cael ei fodloni gan y system addysg.

3.3

Maes Blaenoriaeth 3: laith gwaith a gwasanaeth

Y weledigaeth...

- Cynnydd yn nifer y trigolion sydd yn defnyddio'r Gymraeg wrth weithio a defnyddio gwasanaethau – wyneb yn wyneb ac ar lein.
- Gwella ymwybyddiaeth ymysg perchnogion a rheolwyr busnesau am werth sgiliau Cymraeg ymysg eu gweithlu a chynnig gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.
- Cynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o gyfleoedd y gall technoleg ac adnoddau Cymraeg eu cynnig i gynyddu defnydd a hyder o'r Gymraeg yn y gwaith.
- Y Gymraeg yn cael lle canolog mewn trefniadau cydweithio ac mewn cynlluniau strategol traws-sirol.

Y darlun ystadegol...

Yn ôl ymchwil Arolwg Defnydd Iaith Cenedlaethol 2013-15, mae 85% o siaradwry Cymraeg rhugl Gwynedd yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd. Mae hyn wedi gostwng o'r 90% a nodwyd yn yr Arolwg ar gyfer 2004-06.

Mae dros 90% o staff Cyngor Gwynedd yn siaradwyr Cymraeg, sydd yn golygu bod posib i holl drigolion Gwynedd gael gafael ar wasanaethau cyfrwng Cymraeg, lle bynnag y byddant.

Beth sydd angen digwydd nesaf

Byddwn yn ceisio sicrhau bod cyn lleied o rwystrau â phosib i bobl ddefnyddio gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, a'u bod hefyd yn hawdd eu deall a'u defnyddio.

Bydd hyn yn golygu defnyddio ein dylanwad drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn cyrff cyhoeddus yn y sir i sicrhau bod gwasanaethau cyson ac o safon ar gael i'r trigolion. Bydd angen annog defnyddwyr i ddefnyddio'r Gymraeg bob amser yn eu cyswllt cyntaf gyda chyrff cyhoeddus, yn ogystal â datblygu dealltwriaeth ymysg y cyrff eu hunain o'r arfer gorau wrth gyfarch defnyddwyr yn y cyswllt cyntaf hwn.

Drwy sicrhau bod gan weithluoedd y sgiliau angenrheidiol a bod busnesau yn deall yr angen i roi gwerth a statws i'r Gymraeg wrth recriwtio byddwn yn cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau.

Dros y blynyddoedd nesaf, bydd y Cyngor fel cyflogwr yn datblygu amrywiaeth eang o hyfforddiant iaith er mwyn datblygu sgiliau'r gweithlu, rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer er mwyn arwain at newid arferion, a cheisio delio gyda materion o ddiffyg hyder mewn sgiliau ysgrifenedig. Byddwn hefyd yn gweithio ar fodelau newid ymddygiad, ermwynceisiodylanwadumewnfforddgadarnhaolararferioniaithy gweithlu, a'r trigolion yn ehangach.

Bydd angen i ni ymchwilio i ffyrdd newydd o annog pobl i ddefnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, ar-lein a wyneb yn wyneb, yn ogystal â pharhau i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hamlygu a'i hybu fel rhan o gytundebau cyd-ddarparu neu allanoli gwasanaethau.

Drwy osod a chytuno ar amodau cryf gyda phartneriaid a darparwyr allanol, a mynnu bod cytundebau cydweithio yn glynu at ein hegwyddorion a'n safonau ni, gallwn wella ansawdd mwy o wasanaethau a gynigir i'r cyhoedd.

Yn unol â'r ymrwymiad yng **Nghynllun y Cyngor** bydd angen gweithio gyda busnesau lleol, ac yn enwedig felly mewn meysydd fel twristiaeth a hamdden, er mwyn cynnig arweiniad ar roi llwyfan amlwg i'r Gymraeg yn eu gweithgarwch, ac i sgiliau Cymraeg (neu amlieithog) o fewn eu polisïau recriwtio.

Byddai hyn yn codi statws y Gymraeg fel iaith gwaith, yn ogystal a chodi proffil yr iaith ymysg ymwelwyr rhyngwladol, gan ychwanegu naws am le i'w hymweliadau.

Byddwn yn annog mwy o gyrff a busnesau i fabwysiadu egwyddor y cynnig rhagweithiol, i sylweddoli bod cwrteisi ieithyddol a pharch tuag at ddewis iaith yn gallu creu cymaint o ewyllys da ymysg defnyddwyr, ac y dylem bob amser anelu at allu cynnig y gwasanaeth sydd yn ateb yr angen ieithyddol, yn hytrach na disgwyl i bobl orfod gofyn amdano.



3.4

Maes Blaenoriaeth 4: laith y gymuned

Y weledigaeth...

- Cynnydd yn nifer a chanran y boblogaeth sydd yn ystyried eu hunain yn siaradwyr rhugl.
- Grwpiau cymunedol yn cael cefnogaeth i drefnu a chynnal gweithgareddau sydd yn mynd ati'n bwrpasol i hybu'r Gymraeg.
- Y Gymraeg yn cael ei gweld yn amlwg, mewn gweithgareddau, ac wrth eu hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol, gan sicrhau fan leiaf bod naws ddwyieithog a chynhwysol i ddigwyddiadau cymunedol.
- Pobl ifanc yn cael eu hannog i fod yn arweinwyr cymunedol ac i drefnu gweithgareddau yn eu cymunedau sydd yn dylanwadu ar ddefnydd iaith ac yn cynyddu cyfleoedd i gymdeithasu yn naturiol drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gwahanol garfanau cymdeithasol a chymunedol, a siaradwyr llai parod, yn teimlo eu bod yn rhan o'r gymuned Gymraeg.
- Y Gymraeg yn cael blaenoriaeth amlwg mewn cynlluniau economaidd, tai a chynllunio yn lleol er mwyn sicrhau bod unrhyw gynlluniau a datblygiadau yn cyfrannu yn gadarnhaol at ymdrechion i ddiogelu a chryfhau sefyllfa'r iaith yn ein cymunedau.

Y darlun ystadegol...

Mae Arolwg Defnydd Iaith 2013-15 (Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg 2015) yn dangos bod nifer cynyddol o bobl yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Gymraeg, ond heb fod yn rhugl, gyda'r nifer wedi cynyddu yng Ngwynedd o 13,800 yn 2004-06 i 19,400 yn 2013-15.

Beth sydd angen digwydd nesaf?

Mae'r fenter iaith yng Ngwynedd, Hunaniaith, yn rhan o'r Cyngor, ac felly bydd eu gwaith nhw a'u partneriaid yn gwbl hanfodol er mwyn cyflawni'r weledigaeth yn y maes hwn.

Bydd Hunaniaith yn parhau i ddatblygu cynlluniau fydd yn rhoi cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol mewn cyd-destunau newydd ac amrywiol yn eu cymunedau. Byddant hefyd yn chwilio am gyfleoedd i gynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn technoleg.

Byddant yn parhau i gydweithio gyda phartneriaid allanol a mudiadau cymunedol er mwyn rhoi cyfleoedd ymarfer a magu hyder i'r rhai sy'n llai parod i siarad neu sydd yn siaradwyr newydd, gyda'r nod o gymhathu gwahanol garfanau ein cymdeithas yn fwy effeithiol.

Byddant yn cynnig cefnogaeth i grwpiau gwirfoddol a chynrychiolwyr cymunedol ac yn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r rôl sydd gan bawb i chwarae wrth gynnal yr iaith, ac i ledaenu'r balchder yn y Gymraeg fel iaith fyw.

Byddant yn cynnig cefnogaeth hefyd i sicrhau bod cyfleoedd amrywiol ar gael i bobl o bob oed ddefnyddio'r Gymraeg, ond yn enwedig felly pobl ifanc, sydd mewn cyfnod mor fregus a ddylanwadol yn eu bywydau.

Bydd angen cydweithio gyda nifer o bartneriaid cymunedol yn y maes hwn, ynghyd â chynghorau cymuned a busnesau sydd yn cynnal digwyddiadau o bob maint yn ein cymunedau. Byddai codi statws yr iaith o fewn rhai digwyddiadau mawrion, a'u gweld yn rhoi lle amlwg i ddarparwyr ac adloniant Cymraeg, yn dangos i bobl ifanc a'r gymuned yn ehangach bod gwerth i'r iaith ym mhob maes.

Bydd hefyd yn hollbwysig sicrhau bod y Gymraeg yn cael blaenoriaeth deg o fewn polisiau a chynlluniau strategol y Cyngor sydd yn mynd i effeithio ar y cymunedau, ac yn enwedig felly ym maes cynllunio.

Bydd Uned iaith ac Uned Gynllunio'r Cyngor yn parhau i gydweithio yn agos, er mwyn datblygu arbenigedd cynllunio ieithyddol yn y maes fydd yn cryfhau ac yn gwarchod buddiannau ieithyddol o fewn y broses gynllunio.

3.5

Maes Blaenoriaeth 5: Ymchwil a thechnoleg – gosod y seiliau cywir

Y weledigaeth...

- Datblygu gwell dealltwriaeth o arferion pobl wrth ddefnyddio'r Gymraeg.
- Canfod ffyrdd newydd o ddylanwadu ar arferion iaith pobl.
- Mwy o bobl yn barod i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddefnyddio technoleg.

Beth sydd angen digwydd nesaf?

Byddwn yn ceisio manteisio ar ein sefyllfa unigryw, a'r crynodiad uchel o siaradwyr Cymraeg yn y sir, er mwyn deall arferion a thueddiadau pobl wrth ddefnyddio'r Gymraeg, ac i geisio cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg wrth ddefnyddio technoleg.

Byddwn yn ceisio datblygu'r berthynas gyda phrifysgolion Cymru er mwyn canfod cyfleoedd i gyfrannu at waith ymchwil ym maes cynllunio ieithyddol a newid ymddygiad, fydd yn ei dro yn ein helpu ni i ddeall sut mae pobl yn defnyddio'r iaith mewn gwahanol gyd-destunau ac i addasu i'r newidiadau hynny.

Byddwn yn ceisio cynnig cyfleoedd profiad gwaith i fyfyrwyr er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth o elfennau ymarferol cynllunio ieithyddol, ac er mwyn cyfrannu at arbenigedd yn y maes.

Byddwn yn datblygu prosiectau fydd yn annog mwy o bobl i ddefnyddio'r Gymraeg ar y we, ar y cyfryngau cymdeithasol ac wrth ddefnyddio hunanwasanaeth, gan ystyried sut orau i gyflwyno'r Gymraeg yn y cyd-destunau yma er mwyn dylanwadu a chynyddu defnydd ohoni.

4. Gweithredu'r Strategaeth

Gan mai strategaeth yn cael ei harwain gan y Cyngor yw hon, bydd yn canolbwyntio yn bennaf ar y meysydd hynny y mae ganddo ddylanwad uniongyrchol drosto. Fodd bynnag, gan bod cydweithio agos gydag asiantaethau a chyrff eraill ar draws sawl maes strategol, bydd gan bartneriaid a sefydliadau cymunedol eraill rôl allweddol i'w chwarae wrth hybu'r Gymraeg ar draws y Sir.

Wrth gydwethio ar draws Gwynedd a Môn, drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, er enghraifft gellir dwyn perswâd ar gyrff eraill fel y Bwrdd Iechyd a chyrff cyhoeddus eraill sydd yn darparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd.

Bydd cynnal perthnasau effeithiol gyda sefydliadau megis Cymraeg i Blant, yr Urdd a sawl sefydliad arall sydd yn derbyn arian drwy grant hybu'r Gymraeg y Llywodraeth hefyd yn allweddol er mwyn sicrhau nad oes dyblygu gwaith, a bod ein hymdrechion i warchod a hyrwyddo'r iaith yn gweithio tuag at yr un nod.

Bwriedir cyflawni prif elfennau'r Strategaeth hon mewn cydweithrediad agos â rhai cymunedau, a thrwy weithio'n strategol er mwyn prif-ffrydio'r iaith Gymraeg a chynllunio ieithyddol fel rhan greiddiol o gynlluniau, strategaethau, rhaglenni, polisiâu, prosiectau a gweithgareddau a ddarperir ac a gynhelir eisoes yng Ngwynedd.

Golyga hyn fod yr iaith Gymraeg a hyrwyddo defnydd o'r iaith yn dod yn rhan naturiol o bolisi a gweithrediad cynlluniau economaidd, adfywio, cynllunio, polisi tai, addysg a chymhathu. Hyn oll ar y cyd ag ymgyrchoedd i hyrwyddo'r Gymraeg a gynhelir gan gymunedau yn uniongyrchol eu hunain.

Bydd angen i'r Strategaeth fesur i ba raddau y llwyddir i wau'r elfennau hyn gyda'i gilydd, sut mae polisiâu eraill yn cyfrannu at ffyniant yr iaith, ac adnabod a dylanwadu ar bolisiâu pan fyddant yn rhwystro ac yn hwyluso'r Gymraeg.



Ymgynghoriad Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd

2018 - 2023

Cyflwyniad

Mae Safonau'r Gymraeg, a osodwyd ar Cyngor Gwynedd yn unol ag Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod disgwyliad ar y Cyngor i lunio strategaeth hybu 5 mlynedd. Mi fydd y ddogfen strategol hon yn dangos sut yr ydym yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg ar draws y sir.

Mae'r Cynllun Hybu yma wedi cael ei ddrafftio erbyn hyn, a hoffai Cyngor Gwynedd roi'r cyfle i chi **#DdweudEichDweud**.

Darllenwch y **Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018 – 2023** cyn llenwi'r holiadur hwn. Mi fydd copi o'r cynllun ar gael gyda'r fersiwn papur o'r holiadur.

*Mae'r cwestiynau canlynol yn gofyn i chi ymateb i dudalen 2 y Cynllun –
“Crynodeb o'r sefyllfa bresennol a'r heriau”*

1. Yda chi'n cytuno efo'r dehongliad o'r heriau sydd yn wynebu'r iaith a'r cyfleoedd sydd yna i'w chryfhau yng Ngwynedd?

Ydw

Nac ydw (*nodwch pam yn y blwch isod*)

[Nodwch unrhyw sylwadau yma]

2. Oes yna unrhyw heriau eraill rydych chi'n teimlo rydym wedi eu methu y dylem fod yn rhoi sylw penodol iddynt?

- Oes (Nodwch pa rai yn y blwch isod)
- Nac Oes

[Nodwch unrhyw sylwadau yma]

3. Oes yna unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth gefndirol rydych chi'n teimlo y dylem ni fod wedi ei gynnwys er mwyn eich helpu i ddeall y cyd-destun cyfredol yn well?

- Oes (nodwch beth yn y blwch isod)
- Nac Oes

Nodwch pa wybodaeth / dystiolaeth os gwelwch yn dda?

[Nodwch unrhyw sylwadau yma]

Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn i chi ymateb i dudalen 4 y Cynllun – “Beth yr hoffem ni ei weld?”

4. Ydych chi'n cytuno efo'r weledigaeth gyffredinol a nodir ar dudalen 4 dan y teitl “Beth yr hoffem ni ei weld?”?

Ydw

Nac Ydw (nodwch eich rhesymau yn y blwch isod)

[Nodwch unrhyw sylwadau yma]

DRAFT

Mae'r cwestiynau canlynol yn rhai cyffredinol ar gyfer adran 3 y Cynllun (tudalen 5-19), sef y 5 Maes Blaenoriaeth. Gofynnwn i chi gyfeirio at y meysydd blaenoriaeth penodol wrth gyflwyno unrhyw sylwadau.

Gallwch gyflwyno sylwadau cyffredinol am y ddogfen ar waelod yr holiadur (cwestiwn..)

5. Yda chi'n cytuno efo'r weledigaeth a nodir ar gyfer y Meysydd Blaenoriaeth yn y Cynllun Hybu?

Ydw (Yna ewch i gwestiwn 19)

Nac ydw (nodwch eich sylwadau isod)

[Nodwch eich sylwadau yma]

Maes Blaenoriaeth 1:

Maes Blaenoriaeth 2:

Maes Blaenoriaeth 3:

Maes Blaenoriaeth 4:

Maes Blaenoriaeth 5:

6. Oes yna gyfleoedd eraill yn unrhyw un o'r meysydd blaenoriaeth rydych chi'n teimlo y dylem fod yn rhoi sylw penodol iddyn nhw?

Oes (nodwch unrhyw syniadau yn y blwch isod)

Nac oes

[Nodwch eich sylwadau yma]

Maes Blaenoriaeth 1:

Maes Blaenoriaeth 2:

Maes Blaenoriaeth 3:

Maes Blaenoriaeth 4:

Maes Blaenoriaeth 5:

7. Yda chi'n cytuno efo'r dehongliadau o'r hyn sydd angen digwydd nesaf?

Ydw

Nac ydw (nodwch pam yn y blwch isod)

[Nodwch eich sylwadau yma]

Maes Blaenoriaeth 1:

Maes Blaenoriaeth 2:

Maes Blaenoriaeth 3:

Maes Blaenoriaeth 4:

Maes Blaenoriaeth 5:

8. Oes gennych chi unrhyw syniadau ychwanegol am bethau y gellir eu gwneud i wireddu'r uchelgais yn unrhyw un o'r meysydd blaenoriaeth?

Oes (nodwch eich syniadau isod)

Nac oes (yna ewch i gwestiwn)

[Nodwch eich sylwadau yma]

Maes Blaenoriaeth 1:

Maes Blaenoriaeth 2:

Maes Blaenoriaeth 3:

Maes Blaenoriaeth 4:

Maes Blaenoriaeth 5:

9. Yda chi'n gweld rôl i'ch hun neu'ch sefydliad wrth geisio cyflawni'r weledigaeth yn y Cynllun?

Ydw (*Yna ewch i gwestiwn 26*)

Nac ydw (*yna ewch i gwestiwn 27*)

Nodwch eich rôl os gwelwch yn dda a pha Faes Blaenoriaeth y byddai'n cyfrannu tuag ato?

10. Os oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol neu gyffredinol am y Cynllun neu'r holiadur hwn, gallwch eu nodi isod:

Eitem 6

CYFARFOD	Pwyllgor Iaith
DYDDIAD	24 Ebrill 2018
TEITL	Dogfen Ddrafft Ymchwil Enwau Lleoedd Gwynedd
PWRPAS	Cyflwyno papur ymchwil sy'n amlinellu dyletswyddau a hawliau statudol yr Awdurdod yng nghyswllt bathu, arddel a chofnodi enwau tai, ystadau, strydoedd a lleoedd Gwynedd.
AWDUR	Elliw Alwyn
SWYDDOG CYSWLLT	Gwenllian Williams (EST: 32469)

1. Cefndir

- 1.1 Mae enwau strydoedd a nodweddion y sir wedi bod yn destun sawl cwyn dros y blynyddoedd diweddar, a sawl trafodaeth wedi ei chynnal yn y Pwyllgor Iaith am sut y gallwn ddiogelu a gwarchod enwau Cymraeg cynhenid Gwynedd.
- 1.2 Yn sgil y cwynion a'r ymholiadau a dderbyniwyd gan yr Uned Iaith, gwelwyd bod rhywfaint o aneglurder ynghylch beth yn union oedd cwrpas cyfrifoldeb a dylanwad y Cyngor wrth ddiogelu enwau Cymraeg. Roedd sawl adran o'r Cyngor yn gyfrifol am wahanol elfennau, ac yn dal gwahanol wybodaeth. Roedd gwahanol adrannau hefyd yn gyfrifol am rannu gwybodaeth gydag asiantaethau allanol megis y Post Brenhinol a'r Arolwg Ordnans.
- 1.3 Penderfynwyd cynnal darn o waith ymchwil, fyddai'n ceisio cael eglurder ar y mater, ac yn rhoi sylfaen i ni edrych ar sut y gallwn fynd ati i ddiogelu enwau cynhenid ar gyfer y dyfodol.
- 1.4 Nod y ddogfen hon felly yw ennyn gwell dealltwriaeth ymysg aelodau'r pwyllgor o'r swyddogaethau a'r gweithdrefnau sydd ynghlwm â'r mater hwn a'r gwasanaethau sy'n gyfrifol am wahanol agweddau o fathu, arddel a chofnodi enwau lleoedd yn yr awdurdod.
- 1.5 Mae'r adroddiad hefyd yn nodi hawliau statudol yr awdurdod a'i bolisiau cyfredol sy'n cwrpasu'r testun hwn.
- 1.6 Mae'r ddogfen hefyd yn nodi dyletswyddau statudol cyrff perthnasol eraill Cymru sy'n gyfrifol am fathu, arddel a chofnodi enwau lleoedd a pherthynas yr awdurdod â hwy.
- 1.7 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn ddeddfau newydd y mae'r mater hwn yn berthnasol iddynt bellach.

2. Yr Hyn a Geisir

- 2.2 Cadarnhad bod gan yr aelodau gwell ddealltwriaeth o ddyletswyddau a gweithdrefnau

gwasanaethau'r awdurdod yng nghyswllt bathu, arddel a chofnodi enwau o fewn darpariaethau'r deddfwriaethau perthnasol.

2.3 Cadarnhad bod yr aelodau o'r farn bod gwasanaethau perthnasol yr awdurdod yn hyrwyddo ac yn hybu hyd orau ei allu y defnydd o enwau Cymraeg sy'n nodweddiadol o dreftadaeth gynhenid Gwynedd.

2.4 Arweiniad y pwyllgor yng nghyswllt datblygu'r gwaith o fewn yr awdurdod, ymchwilio ymhellach neu'r angen i gyflwyno a mabwysiadu polisi swyddogol newydd.

3. Ystyried y camau nesaf

3.1 Bydd angen trosglwyddo canfyddiadau'r ymchwil a'r argymhellion a gyflwynir yn yr adroddiad yn gamau gweithredu pendant. Gellid cyflwyno'r rhain ar ffurf polisi neu ganllawiau i staff.

3.2 Dylid sicrhau bod ymgynghori gyda'r adrannau a'r swyddogion perthnasol cyn ymgorffori unrhyw bolisi neu ganllaw er mwyn sicrhau bod yr hyn a geisir yn ymarferol ac yn bosib o fewn adnoddau dynol ac ariannol presennol y Cyngor.

3.3 Os bydd polisi yn cael ei lunio, bydd angen iddo ddilyn y drefn arferol a chael ei gymeradwyo gan Gabinet y Cyngor.

4. Argymhellion

4.1. Gofynnir i'r aelodau ystyried yr adroddiad drafft a'r wybodaeth a gyflwynir ac ystyried beth yw'r camau nesaf. A oes angen gwneud gwaith pellach yn y maes hwn, ac a oes unrhyw gwestiynau heb eu hateb?

**Mae'n cof yma'n y caeau – a hanes
yr hen genedlaethau,
A swyn y pridd sy'n parhau
O roi anadl i'r enwau.
(Anhysbys)**

Testun: Papur Ymchwil i Bolisi Enwau Lleoedd

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae enwau strydoedd a nodweddion daearyddol wedi bod yn destun sawl cwyn dros y blynyddoedd diwethaf a chafwyd sawl trafodaeth yn y Pwyllgor Iaith ynghylch sut i ddiogelu enwau Cymraeg.
- 1.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn ddeddfau newydd y mae'r mater hwn yn berthnasol iddynt bellach.
- 1.3 Ceir yn y ddogfen hon amlinelliad o'r ystyriaethau sy'n berthnasol i'r mater ac ymgais i egluro swyddogaethau a gweithdrefnau'r gwasanaethau sy'n gyfrifol am wahanol agweddau o fathu, arddel a chofnodi enwau lleoedd yn yr awdurdod.
- 1.4 Mae'r ddogfen hefyd yn nodi dyletswyddau statudol cyrff perthnasol eraill Cymru sy'n gyfrifol am fathu, arddel a chofnodi enwau lleoedd ynghyd â pherthynas yr awdurdod â hwy.
- 1.5 Nod y ddogfen hon felly yw ennyn gwell dealltwriaeth ymysg aelodau'r pwyllgor o'r swyddogaethau a'r gweithdrefnau sydd ynghlwm â'r mater hwn.

2.0 Ystadegau Enwi a Newid Enwau yr uned Rheolaeth Adeiladu

Mae'r uned Rheolaeth Adeiladu yn medru darparu ystadegau manwl enwi a newid enwau tai a datblygiadau i ni erbyn diwedd mis Mai ond mae ystadegau cyffredinol y llynedd fel a ganlyn:

Ystadegau Enwi a Newid Enwau Gwynedd 2017

Iaith yr Enw	Enw Newydd	Newid Enw
Cymraeg	98	2 (o'r Saesneg i'r Gymraeg)
Saesneg	14	Ond cyswllt hanesyddol â'r ardal gan bob un. (1 yn enwi cwmni ac 1 yn newid o enw Saesneg blaenorol).

2.0 Yr Hyn a Geisir

- 2.1 Cadarnhad bod gan yr aelodau gwell ddealltwriaeth o ddyletswyddau a gweithdrefnau gwasanaethau'r awdurdod yng nghyswllt bathu, arddel a chofnodi enwau o fewn darpariaethau'r deddfwriaethau perthnasol.
- 2.2 Cadarnhad bod yr aelodau o'r farn bod gwasanaethau perthnasol yr awdurdod yn hyrwyddo ac yn hybu hyd orau ei allu y defnydd o enwau Cymraeg sy'n nodweddiadol o dreftadaeth gynhenid Gwynedd.
- 2.3 Arweiniad y pwyllgor yng nghyswllt datblygu'r gwaith o fewn yr awdurdod, ymchwilio ymhellach neu'r angen i gyflwyno a mabwysiadu polisi swyddogol newydd.

3.0 Cyd-destun Deddfwriaethol

3.1 Dylid ystyried y papur hwn yn y cyd-destun deddfwriaethol isod:

- a) Adran 17 ac 18 Deddf Iechyd Cyhoeddus 1925
- b) Deddf Cymalau Gwelliannau Trefol 1847
- c) Deddf yr Iaith Gymraeg 1967
- ch) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993
- d) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- dd) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- e) Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

4.0 Cyd-destun Polisi

- a) Polisi Enwi neu Ail-enwi Strydoedd, Datblygiadau Newydd ac Eiddo Drafft; Rheolaeth Adeiladu, Ymgynghoriaeth
- b) Cynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod; Gwasanaethau Iaith, Cefnogaeth Gorfforaethol
- c) Polisi Enwau Cymraeg; Polisi Cofnodi Enwau Cymraeg yng nghronfa ddata'r Arolwg Ordians
- ch) Canllawiau Safoni Enwau Lleoedd Cymru; Comisiynydd y Gymraeg
- d) Canllawiau Statudol ar sut y dylai Awdurdodau Lleol, Awdurdod Parciau Cenedlaethol a Chyfoeth Naturiol Cymru ddefnyddio'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol a Chyfrannu at eu Llunio

5.0 Amlinelliad o Ddyletswyddau a Hawliau Cyngor Gwynedd yng nghyswllt enwi a newid enwau tai, datblygiadau newydd a strydoedd

Rhif	Corff	Dyletswydd	Hawliau	Math o gorff
5.1	<p>Cyngor Gwynedd;</p> <p>Rheolaeth Adeiladu;</p> <p>Gwasanaethau Iaith</p> <p>Uned Gyfieithu</p> <p>Technoleg Gwybodaeth</p>	<p>Gweinyddu ceisiadau gan unigolion a datblygwyr i enwi tai a datblygiadau newydd.</p> <p>Hyrwyddo a hybu a rhoi blaenoriaeth i enwau Cymraeg a ble mae'n bosib, rhoi blaenoriaeth i enwau â chyswllt hanesyddol.</p> <p>Anfon yr enwau i AO a Swyddfa'r Post i osgoi dyblygu cyn caniatáu enw ac er mwyn pennu cod post.</p> <p>Sicrhau bod polisi Enwi Lleoedd Rheolaeth Adeiladu yn rhoi ystyriaeth ddigonol i hyrwyddo a hybu'r Gymraeg.</p> <p>Cynghori ar enwau Cymraeg</p> <p>Cofnodi'r enwau sy'n cael eu caniatáu a'u mabwysiadu mewn cofrestr ddigidol sy'n bwydo i mewn i gofrestr ddigidol</p>	<p>Hawl i argymhell enw Cymraeg yn unig a gofyn i ymgeisydd ail-ystyried os nad yw'n enw Cymraeg er mwyn gwarchod yr amgylchedd lleol (tai a datblygiadau newydd).</p> <p>Hawl i anfon enw Cymraeg yn unig i'r AO a Swyddfa'r Post ac i nodi mai enw Cymraeg yn unig fydd yn cael ei arddel.</p> <p>Mae gan yr awdurdod yr hawl i wrthod enwau digymraeg ar strydoedd.</p> <p>Mae gan yr awdurdod yr hawl i fathu enwau Cymraeg a newid enwau strydoedd i rai Cymraeg yn unig wrth ddilyn proses gyfreithiol.</p> <p>Hawl i wrthod enwau pan fo achosion o ddyblygu boed yn Gymraeg neu fel arall.</p>	<p>Mae Cyngor Gwynedd yn gweinyddu proses enwi a newid enwau tai, datblygiadau newydd a strydoedd.</p> <p>Mae gan yr awdurdod yr hawl i newid enwau ac enwi strydoedd a hawl i wrthod cais gan unigolyn i wneud hyn.</p> <p>Mae Cyngor Gwynedd yn hybu, yn hyrwyddo ac yn rhoi blaenoriaeth i enwau Gymraeg ac enwau hanesyddol.</p> <p>Gall y Cyngor fathu, dylanwadu ac ymgynghori ar enwau ac ef fydd yn eu hanfon i'r AO, Swyddfa'r Post a'r gofrestr enwau genedlaethol.</p>

	Priffyrdd	cyfeiriadau cenedlaethol. Rhifo ac ail rifo tai	Os yw enwau strydoedd wedi cael eu cofnodi yn ddwyieithog, yna mae'n rhaid i'r arwydd fod yn ddwyieithog ar gyfer y gwasanaethau brys.	
--	-----------	--	--	--

6.0 Amlinelliad o ddyletswyddau a hawliau cyrff perthnasol eraill Cymru yng nghyswllt enwi a newid enwau tai, datblygiadau newydd a strydoedd

6.1	Datblygwyr/adeiladwyr a pherchnogion tai	Cynnig enwau newydd ar gyfer datblygiadau newydd a thai.	Cysylltu â'r Cyngor a chynnig enw neu dri enw yng nghyswllt datblygiadau.	Corff neu unigolyn sy'n cynnig enw.
6.2	Cynghorau cymuned a chynghorau tref	Gwarchod a dylanwadu ar enwau nodweddiol hanesyddol, datblygiadau a strydoedd eu cymunedau.	Dylanwadu ar enwau nodweddiol hanesyddol, datblygiadau a strydoedd eu cymunedau.	Corff ymgynghorol a dylanwadol sy'n medru argymhell enwau Cymraeg sy'n nodweddiadol o dreftadaeth yr ardal.
6.3	Cymdeithas Enwau Lleuedd Cymru	Safoni, bathu a newid enwau lleuedd Cymru.	Awdurdod ar enwau lleuedd Cymru. Argymhell, dylanwadu a hyrwyddo.	Corff ymgynghorol a dylanwadol sy'n medru argymhell enwau Cymraeg sy'n nodweddiadol o dreftadaeth yr ardal ond sydd hefyd yn gwarchod enwau di-gymraeg os ydynt yn rhan o hanes yr ardal.
6.4	Arolwg Ordnans	Cofnodi enwau lleuedd ar fapiau swyddogol. Mapiau'n cael eu diweddarau bob chwe mis.	Cofnodi enwau a newid enwau yn seiliedig ar dystiolaeth leol o'r enwau a adwaenir yn lleol a chyrrff	Corff cofnodi, enwi ac ail-enwi mewn ymgynghoriad â chyrrff sy'n awdurdod ar enwau lleuedd a chymunedau lleol.

			<p>sy'n awdurdod ar enwau lleoedd.</p> <p>Mae AO yn rhoi pwyslais ar greu mapiau modern yn hytrach na rhai hanesyddol yn ôl y swyddog polisi.</p>	
6.5	Comisiynydd y Gymraeg	Panel Safoni Enwau Lleoedd Cymraeg Cenedlaethol.	<p>Safoni, hybu a hyrwyddo enwau lleoedd Cymru.</p> <p>Canllaw Safoni Enwau Cymru ac Enwau Aneddiadau.</p>	Safoni, hyrwyddo a chorff ymgynghorol sy'n medru argymhell enwau Cymraeg neu hanesyddol. Mae'r Comisiynydd hefyd yn medru gwarchod enwau hanesyddol di-gymraeg os ydynt yn rhan o hanes arwyddocaol yr ardal (enwau Saesneg, Lladin ac ati).
6.6	Y Post Brenhinol	Cofnodi ac arddel cyfeiriadau ac enwau lleoedd y bydd yr awdurdod lleol yn anfon iddo.	Dyrannu Cod Post.	Corff gweinyddol sy'n dyrannu cod post ac yn sicrhau nad oes dyblygu cyfeiriadau. Ei nod yw hwyluso anfon y post i'r cyfeiriadau cywir, sicrhau bod cyfeiriadau yn gywir ar gyfer y gwasanaethau brys a sicrhau nad oes dyblygu cyfeiriadau.
6.7	Adrannau Uwchfrydiau'r Gymraeg, Astudiaethau Celtaidd, Technolegau Iaith, Archeoleg a Hanes Prifysgolion Cymru –	Awdurdod academiaidd ar enwau lleoedd Cymru.	Ymchwilio, dehongli, egluro a dylanwadu ar enwau lleoedd Cymru.	Corff ymgynghorol sy'n argymhell a hyrwyddo enwau yn seiliedig ar wybodaeth academiaidd ieithyddol, hanesyddol,

	Prifysgol Cymru, Bangor yng Ngwynedd			daearyddol ac archeolegol.
6.8	Llywodraeth Cymru	Cadw cofnod statudol cenedlaethol o enwau'r amgylchedd hanesyddol dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.	Cofnodi ac ymgynghori ar enwau lleoedd yng Nghymru. Canllaw gan y Llywodraeth ar gyfer gwarchod yr amgylchedd hanesyddol.	Cofrestr y dylai Awdurdodau Lleol, Awdurdod Parciau Cenedlaethol a Chyfoeth Naturiol Cymru ei gwirio a chyfrannu at ei datblygiad.

7.0 Arfer Cyfredol Cyngor Gwynedd

- 7.1 Wrth ymchwilio'n gychwynnol i'r mater, daethpwyd o hyd i bolisi drafft gan y gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu sy'n nodi dyletswydd statudol yr awdurdod a'i weithdrefnau yn y maes hwn.
- 7.2 Cafodd y polisi drafft ei lunio yn 2014 ac ymgynghorwyd â'r Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith y pryd hynny er mwyn cael mewnbwn o ogwydd hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn y polisi. Rhaid pwysleisio mai cyfrifoldeb dirprwyedig i'r gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu yw'r gofyn statudol i enwi a rhifo tai, datblygiadau a strydoedd ac felly polisi'r gwasanaeth yma fyddai unrhyw bolisi dan ddarpariaethau Ddeddf Iechyd Cyhoeddus 1925. Rhaid cofio bod cofnodi cyfeiriadau a rhifau tai ac ystadau diamwys yn bwysig yng nghyswllt iechyd y cyhoedd a gallu'r gwasanaethau brys i gyrraedd unrhyw gyfeiriad ac fel bod postmyn yn medru danfon post i'r cyfeiriadau cywir.
- 7.3 Penderfynwyd ar y pryd y byddai'r gweithdrefnau'n cael eu treialu cyn parhau i gyflwyno'r polisi er mwyn ei fabwysiadu. Yn y cyfamser, mae'r swyddogion oedd yn gyfrifol am y maes hwn wedi symud i swyddi eraill ac felly nid yw'r gwaith wedi cael ei ddatblygu fel y bwriadwyd.
- 7.4 Fel y cyfeirir ato uchod hefyd, mae deddfau newydd wedi dod i fodolaeth ers llunio'r polisi drafft hwn sef Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn
- 7.5 Mae'n wir dweud bod y polisi drafft a gweithdrefnau bathu a newid enwau'r gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu yn nodi bod blaenoriaeth yn cael ei roi i fathu ac arddel enwau Cymraeg. Wele'r cymalau perthnasol isod:
- “Mae Cyngor Gwynedd yn gofyn bod enwau arfaethedig...
- ble bod hynny'n bosib, yn deillio o gysylltiadau hanesyddol, daearyddol neu leol yr ardal
 - a bydd yn rhoi blaenoriaeth i enwau Cymraeg”.

7.6 Mae canllawiau ar wefan gorfforaethol y Cyngor sy'n rhoi cyngor ac arweiniad i ddatblygwyr a pherchnogion eiddo ar bolisi a gweithdrefnau enwi, ail-enwi a rhifo tai a datblygiadau newydd yng Ngwynedd –

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Cynllunio-a-rheolaeth-adeiladu/Enwi-eiddo.aspx>

7.7 Mae gan y cyhoedd (ymgeiswyr unigol fel perchnogion tai a datblygwyr sy'n datblygu ystadau newydd) yr hawl i gynnig enwau di-gymraeg ar dai a datblygiadau newydd ond mae gweithdrefn mewn lle ble mae'r Cyngor yn gofyn iddynt ail-ystyried enwau di-gymraeg ac yn rhoi 28 diwrnod iddynt wneud hynny.

7.8 Ar hyn o bryd, bydd swyddogion Rheolaeth Adeiladu'r Cyngor yn awgrymu cyfieithiad synhwyrol o enwau di-gymraeg i'r ymgeiswyr a hynny mewn ymgynghoriad â'r uned gyfieithu. Serch hynny, cyfieithiad o'r enw a awgrymir gan yr ymgeisydd fydd y rhain ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu hanes neu dreftadaeth yr ardal mewn unrhyw ffordd.

7.9 Yng nghyswllt enwau datblygiadau newydd, bydd datblygwyr yn cynnig tri enw ac unwaith eto, bydd swyddogion y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i dderbyn enwau Cymraeg ac yn annog y datblygwyr i ystyried natur ieithyddol, hanesyddol a diwylliannol yr ardal.

7.10 Nid yw'n hysbys i ba raddau y bydd ymgynghori ar enwau hanesyddol sy'n nodweddiadol o'r ardal a'r dreftadaeth leol yn digwydd ar hyn o bryd a pha weithdrefn sydd mewn lle ar gyfer gwneud hyn.

7.11 Mae polisi cyfredol yr awdurdod yn nodi y bydd bob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei rinwedd ei hun a'r cyngor cyfreithiol a gafwyd oedd na ddylai polisi fod yn rhy haearnidd ac y gellir gweithio o fewn rhychwant y gyfraith wrth ystyried bob cais yn ôl ei rinwedd ei hun a chyfiawnhau penderfyniad yn seiliedig ar achosion unigol.

8. Rhai o'r cwestiynau oeddem yn ceisio eu hateb?

8.1 Pam na allwn fynnu ar enwau Cymraeg ac mai'n bwriad yw hyrwyddo'r Gymraeg hyd orau ein gallu?

Nid oes darpariaeth yn Neddf Diogelwch Cyhoeddus 1925 yng nghyswllt hawl statudol yr awdurdod i enwi tai a datblygiadau newydd ond mae yng nghyswllt strydoedd. Gweinyddu enwi neu newid enw tai a datblygiadau newydd yw dyletswydd yr awdurdod dan y ddeddf hon ond caiff enwi a newid enwau strydoedd drwy broses gyfreithiol.

Fodd bynnag, mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn creu swyddogaethau sy'n cynnwys hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymhob agwedd o weinyddiaeth leol a gall y polisi Enwi Strydoedd a Thai nodi mai Polisi Cyngor Gwynedd yw rhoi blaenoriaeth i enwau uniaith Gymraeg yn ei gymunedau. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn ymrwymo awdurdodau lleol i warchod eu treftadaeth leol a gellid dadlau bod hwn yn un o'r meysydd lle gellir gwneud hynny.

8.2 Pam na allwn ddiddymu fersiynau di-gymraeg ac enwau dwyieithog ar strydoedd?

Mae gan Gyngor yr hawl, drwy wneud gorchymyn, i newid enw stryd neu roi enw newydd ar stryd (neu ran o stryd) lle nad oedd enw wedi cael ei roi o'r blaen (Adran 18, Deddf Iechyd Cyhoeddus 1925).

Mae gan Gyngor Gwynedd yr hawl i wrthwynebu cais gan ymgeisydd sy'n awgrymu enw newydd i stryd (neu i ran o stryd) (Adran 17, Deddf Iechyd Cyhoeddus 1925).

Gweler y ddarpariaeth lawn yn Adrannau 17 ac 18, Deddf Iechyd Cyhoeddus 1925.

Yn dilyn cyngor cyfreithiol, dyma'r egwyddorion y dylai'r Cyngor eu defnyddio wrth wneud penderfyniad dan Adran 17 ac Adran 18, Deddf Iechyd Cyhoeddus 1925:

Wrth wneud penderfyniad i newid neu roi enw newydd ar stryd (neu ran o stryd), neu i wrthwynebu cais ymgeisydd i roi enw newydd ar stryd (neu ran o stryd), fel mae'n briodol, fe fydd y Cyngor yn ystyried bob cais yn ôl ei rinwedd unigol ei hun. Serch hynny fe fydd y Cyngor yn dilyn yr egwyddor o roi blaenoriaeth i enwi stryd (neu ran o stryd) yn uniaith Gymraeg, ac i'r diben yma bydd y Cyngor yn gweithredu er budd gweinyddiaeth dda ac er budd y gymdogaeth leol.

Cyn penderfynu, fe fydd gan y Cyngor yr hawl os yw'n ei gweld yn briodol, i ymgynghori â'r gymdogaeth leol a gall yna ystyried yr ymatebion a ddaw i law yn sgil yr ymgynghoriaeth. Pe byddai ffactorau eithriadol yn bodoli, megis rhesymau hanesyddol a diwylliannol lleol, gall y rhain arwain y Cyngor i wyro o'r polisi o roi blaenoriaeth i'r Gymraeg, ac felly fel eithriad gall stryd, neu ran o stryd, gael ei henwi naill ai yn ddwyieithog neu yn ddi-gymraeg ar sail rheswm neilltuol.

Mae gan y Cyngor yr hawl i newid enwau strydoedd i rai uniaith Gymraeg ond byddai'n rhaid eu cofnodi'n uniaith gyda'r asiantaethau perthnasol a newid yr arwydd ar ôl i'r enw gael ei gofrestru rhag peri dryswch i'r gwasanaethau brys. **Byddai bob achos yn achos unigol a byddai'n rhaid mesur hyd a lled yr adnoddau dynol ac ariannol fyddai eu hangen i wneud hyn.** Byddai proses gyfreithiol i'w dilyn ymhob achos.

8.3 Oes yna unrhyw reswm pam na allwn roi arwyddion Cymraeg yn unig pan mae fersiwn Saesneg o'r un cyfeiriad, h.y. os mai'r Cyngor sy'n gyfrifol am arwydd, pam na allwn roi arwydd Cymraeg yn unig?

Os yw'r enw wedi cael ei gofrestru'n ddwyieithog yna mae'n rhaid i'r enw ar yr arwydd fod yn ddwyieithog rhag peri dryswch i'r gwasanaethau brys.

Byddai'n rhaid mynd drwy broses i newid yr enw a'r hyn sydd wedi cael ei gofrestru cyn newid unrhyw arwydd.

Byddai'n rhaid ymgynghori gyda'r Arolwg Ordnans, y Post a'r Gwasanaethau Brys i weld sut mae'r enw wedi cael ei gofrestru ac yna dilyn proses i newid yr enw i un uniaith Gymraeg.

Mae angen sicrhau bod yr arwydd yr un fath â'r hyn sydd wedi cael ei gofrestru gan yr asiantaethau perthnasol rhag ofn i'r Cyngor gael ei alw i roi tystiolaeth mewn cwest petai rhywun yn marw oherwydd amwyster cyfeiriad gan i'r gwasanaethau brys fethu cyrraedd

yno mewn da bryd. Serch hynny, mae gan y Cyngor yr hawl i ddefnyddio enw uniaith Gymraeg ond rhaid gochel nad oes ffurf ddwyieithog wedi cael ei gofrestru a'i arddel gan yr asiantaethau perthnasol eraill.

Unwaith eto, byddai'n rhaid pwysu a mesur yr adnoddau fyddai eu hangen i newid enwau strydoedd i enwau uniaith Gymraeg cyn bwrw ymlaen i wneud hynny.

Rhaid cofio ei bod wedi bod yn arferiad enwi strydoedd yn Gymraeg yn unig ers dyfodiad Deddf yr Iaith 1993 yn ôl y gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu a bod bob ymdrech wedi cael ei wneud i ddwyn perswâd ar berchnogion tai a datblygwyr i enwi tai a datblygiadau yn Gymraeg yn unig.

9.0 Argymhellion ac Ystyriaethau i'r Dyfodol

- 9.1 Mae angen mwy o eglurder ynghylch i ba raddau yr ymgynghorir â chyrff sy'n awdurdod ar enwau lleoedd hanesyddol Cymru wrth fathu neu newid enwau a bydd angen ymgorffori hyn mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn newydd.
- 9.2 Bydd angen addysgu'r swyddogion Rheolaeth Adeiladu sy'n ymdrin â'r cyhoedd yn uniongyrchol mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn newydd sy'n bodoli er mwyn gwarchod enwau lleoedd hanesyddol a chynhenid Cymru.
- 9.3 Bydd angen gwirio polisiau cyffelyb ac arferion da awdurdodau lleol eraill yn y maes hwn.
- 9.4 Bydd angen ail-ymweld â pholisi enwau Cymraeg yr Arolwg Ordnans a'i gymharu o bosib â'r polisi enwau Gaeleg er mwyn rhannu a mabwysiadu arfer da.
- 9.5 Bydd angen gweld i ba raddau y gall y Cyngor ddylanwadu ar enwau Cymraeg wrth drafod newid enwau â'r Arolwg Ordnans a Swyddfa'r Post.
- 9.6 Bydd angen sefydlu trefn gadarn ar gyfer ymgynghori â chyrff perthnasol Cymru ynghylch enwau Cymraeg hanesyddol.
- 9.7 Bydd angen cywain rhestr o ganllawiau a ffynonellau ymgynghori ar enwau bydd y Cyngor yn eu defnyddio.
- 9.8 Bydd angen sicrhau bod y canllawiau ymgynghori a'r ffynonellau ymgynghori ar gael i staff, aelodau a chynghorau tref a chymuned.
- 9.9 Dylid gwirio gyda'r Arolwg Ordnans am enghreifftiau o ymgynghori gydag awdurdodau lleol ynghylch bathu a newid enwau sy'n gosod cysail ar gyfer Cymru.
- 9.10 Cafodd gwaith ei wneud ar safoni cronfa enwau lleoedd y Cyngor gan yr Uned TG flynyddoedd yn ôl (tua 2004) a'r byrdwn y pryd hwnnw oedd bod angen pwysu er mwyn rhoi blaenoriaeth i enwau Cymraeg. Cyflwynwyd adroddiad gan Clive James, Prif Swyddog Polisi Adran y Prif Weithredwr ar y pryd ynghylch natur yr enwau oedd yn cael eu cywain gan y Cyngor a'u hanfon i'r *National Land Information Service* a'r Gofrestr Tir ac Eiddo Cenedlaethol. Gellid ail-ymweld â'r gofrestr hon i weld beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf.

- 9.11 Byddai'n rhaid i unrhyw bolisi newydd nodi swyddogaeth bob adran, enwau a manylion cyswllt holl swyddogion perthnasol yr awdurdod a'r holl weithdrefnau perthnasol sydd ynghlwm wrth y gwaith.
- 9.12 Polisi'r uned gyfieithu yw arddel enwau Cymraeg yn unig mewn testun ac eithrio bod enw di-gymraeg wedi hen ennill ei blwyf yng Ngwynedd am reswm hanesyddol. Mae gan yr uned gyfieithu restr enwau lleoedd a bydd hefyd yn defnyddio'r *Gazeteer of Welsh Place Names* a gydnabyddir yn y cylchoedd academiaidd. Mae cronfa ddigidol o enwau lleoedd Cymru bellach ar gael ar wefan Prifysgol Cymru Bangor a dylid hybu a hyrwyddo'r defnydd ohonynt.

<http://www.e-gymraeg.org/enwaucymru/introduction.aspx>

Ceir hefyd Cronfa Ddata Enwau Lleoedd, Archif yr Athro Melville Richards, Prifysgol Bangor, ar-lein isod:

<http://www.e-gymraeg.co.uk/enwaulleoedd/amr/>

- 9.12 Dylid hybu a hyrwyddo'r defnydd o Gofrestr Statudol Enwau Hanesyddol Cymru, Llywodraeth Cymru, dan Ddeddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.

Diben y rhestr yw codi ymwybyddiaeth gyhoeddus o dreftadaeth gyfoethog enwau lleoedd yng Nghymru a hyrwyddo parhad y nodwedd bwysig hon o dreftadaeth y genedl.

Mae'r gofrestr ar gael yn rhad ac am ddim ar-lein ac mae'n gofnod sy'n esblygu'n barhaus ar sail gwybodaeth awdurdodol ynghylch y maes. Mae'r Llywodraeth yn dymuno i'r gofrestr gael ei defnyddio i

- gynorthwyo'r cyhoedd i ddysgu am hanes eu cymunedau;
- cefnogi ymchwil academiaidd a
- bod yn sail i benderfyniadau wrth reoli'r amgylchedd hanesyddol.